



Adran Hanes a
Hanes Cymru

Astudiaethau israddedig mewn

Hanes a Hanes Cymru

Cynnwys

Croeso	t.1
Proffil myfyriwr	t.2
Ein cyrsiau	t.4
Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg	t.14
Cyflogadwyedd	t.15
Ymchwil	t.16
Cyfleoedd byd-eang	t.18
Sut i wneud cais	t.20



Gwybodaeth bwysig

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddwr am y rhaglenni gradd yn y llyfryn hwn yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w hargraffu (Hydref 2023), ond fe allai newid. Cynghorir darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs, gan gynnwys ein gofynion mynediad, cyn gwneud cais, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.

Croeso

Croeso i'r adran Hanes a Hanes Cymru. Fi yw'r Athro Phillipp Schofield, a fi yw Pennaeth yr Adran yma ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Mae myfyrwyr yn dewis astudio Hanes yn Aberystwyth am sawl rheswm. Mae Aberystwyth yn dref lan-y-môr hardd sydd ag adnoddau ardderchog i haneswyr, fel Llyfrgell Genedlaethol Cymru, un o bum llyfrgell hawlfraint Prydain sydd ond ychydig funudau ar droed o'r adran. Mae ein haddysg a'n hymchwil yn cynnwys ystod eang o arbenigedd, gan gynnwys Hanes yr Oesoedd Canol a Hanes Modern a Hanes Modern Cynnar.

Mae ein darlithwyr hefyd yn cynnal ymchwil o safon fyd-eang sy'n bwydo i bob un o'n rhaglenni gradd israddedig. Mae hyn yn golygu y gallwch ddysgu'n uniongyrchol gan arbenigwyr sy'n cyflawni'r ymchwil hanesyddol diweddaraf. Mae gennym nifer o brosiectau ymchwil cyffrous ar waith yn yr adran ar hyn o bryd. Mae un o'r rhain, Prosiect Argraff, sef prosiect ar seliau canoloesol, yn cynnwys cydweithio rhwng ein hymchwilwyr a gwyddonwyr ffrensïg i ymchwilio i olion bysedd ar seliau, gan ddod â gwyddoniaeth a hanes ynghyd i ddeall y gorffennol yn well.

"Pam ddylech chi ddewis Aberystwyth?" Yr ateb symlaf yw ein bod yn meithrin eich angerdd a'ch brwdfrydedd am hanes, ac yn ei alluogi i dyfu fel ei fod yn eich cynnal chi'n ddeallusol ac ym myd gwaith. Bydd gradd Hanes o Brifysgol Aberystwyth yn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i gyrraedd yr yrfa o'ch dewis. Gan ddechrau yn y flwyddyn gyntaf, rydym yn cynnig modiwlau, lleoliadau gwaith a phrofiadau a fydd yn helpu i'ch paratoi ar gyfer gwaith. Bydd astudio am radd mewn Hanes yn datblygu eich meddwl

beirniadol a'ch sgiliau cyfathrebu, ymchwil, dehongli a dadansoddi, gan eich gwneud yn ymgeisydd cystadleuol ar gyfer ystod o yrfaeodd. Mae ein graddedig wedi mynd i swyddi yn yr heddlu, y sector treftadaeth, newyddiaduraeth, darlledu, y gwasanaeth sifil, addysg a gwleidyddiaeth.

Yn ogystal, gall pob myfyriwr yn ein hadran astudio dramor neu wneud lleoliad ymgymryd â phrofiad gwaith yn ystod y radd. Os hoffech astudio dramor fel rhan o'ch gradd, gallwch ddewis o blith unrhyw un o'n prifysgolion partner ar draws Ewrop ac yn rhyngwladol, yn Unol Daleithiau America, Awstralia, Canada a Hong Kong. Rydym hefyd yn cynnig cymorth i fyfyrwyr sy'n i ymgymryd â phrofiad gwaith mewn ystod amrywiaeth o sectorau.

Wrth galon ein cyrsiau gradd, rydym yn cynnig dewis o fodiwlau sy'n adlewyrchu ein harbenigedd ymchwil ar draws ystod eang o gyfnodau a themâu drwy gydol Hanes.



Rydym yn cynnig dull ymarferol o astudio Hanes, ac mae ymgysylltu â ffynonellau craidd yn ganolog i'n haddysgu. Ochr yn ochr â darlithoedd, bydd eich modiwlau'n cynnig gweithdai a seminarau sy'n caniatáu i chi archwilio pwnc o sawl safbwynt ac arddull addysgu, ynghyd â chynnig cyfleoedd ar gyfer ymchwil annibynnol gydag arweiniad.

Ceir gwybodaeth am ein modiwlau a'n graddau yn y llyfryn hwn. Os oes gennych gwestiynau am unrhyw un o'n cyrsiau neu am yr adran, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Yr Athro Phillipp Schofield
Pennaeth yr Adran



Proffil Myfyriwr

Chris Dale

Helo, fy enw i yw Chris Dale ac rwy'n fyfyrwr Hanes yn fy ail flwyddyn yn yr Adran Hanes a Hanes Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth. I fi, mae astudio gyda'r Adran Hanes a Hanes Cymru wedi bod yn daith ddiddorol o ddarganfod, wedi'i harwain gan dîm o staff gwybodus a chefnogol iawn.

Un o'r pethau gwych ynghylch cwrs Hanes Aberystwyth yw bod modd i chi ddewis o blith ystod eang o fodiwlau, sydd wedi'u gwasgaru dros y cyfnodau, gyda darlithwyr yn arbenigo yn Hanes yr Oesoedd Canol i'r cyfnod Modern Cynnar a'r cyfnod Modern. Mae gallu dewis o blith ystod mor amrywiol o arbenigedd yn golygu bod modd teilwra'r cwrs i'ch diddordebau chi, gan roi cynnig ar feysydd o hanes efallai nad ydych chi wedi rhoi cynnig arnyn nhw o'r blaen ar yr un pryd.

Mae darlithwyr Aberystwyth yn hynod gefnogol, ac maen nhw wastad ar gael i gynorthwyo gyda gwaith cwrs neu baratoi ar gyfer arholiadau, felly dylech chi'n sicr wneud defnydd da o'u harbenigedd. Mae gan yr adran gydbwysedd da o staff a myfyrwyr, sy'n golygu y byddwch chi'n dod i adnabod eich darlithwyr yn gyflym. Mae hyn wedi gwneud y profiad o fod yn y brifysgol yn haws ymdrin ag e ac yn fwy personol.



Yn gyffredinol, mae'r cwrs yn heriol yn ddeallusol, ac mae wir yn caniatáu llawer o ryddid i fyfyrwyr astudio mewn ffordd sy'n gweddu i'w harddull a'u diddordebau nhw.

Rydyn ni fyfyrwyr Hanes yn treulio llawer o'n hamser yn llyfrgell Hugh Owen yn astudio. Mae hi yng nghanol y campws, wedi'i threfnu'n glir, ac mae ganddi staff anhygoel sy'n barod i helpu gydag unrhyw beth, o ganfod ffynonellau prin i drwsio cyfrifiadur. Rydyn ni'n lwcus iawn

o gael mynediad at Lyfrgell Genedlaethol Cymru hefyd, un o'r pum llyfrgell hawlfraint ym Mhrydain ac Iwerddon, sydd wedi'i lleoli wrth ymyl y campws. Yn y Llyfrgell Genedlaethol, mae modd i fyfyrwyr gael mynediad at gopi o unrhyw beth sydd erioed wedi'i gyhoeddi ym Mhrydain, sy'n gymorth mawr wrth geisio cefnogi ffynonellau craidd ac eilradd... ac mae am ddim!

Gan adael y gorau tan y diwedd, rydw i nawr yn cyrraedd bywyd cymdeithasol myfyriwr hanes yn Aberystwyth. Er y byddwch chi'n gweithio'n galed, mae hefyd yn bwysig mwynhau'r bywyd cymdeithasol yma. Gallai hynny gynnwys dod yn rhan o'r llu o gymdeithasau a chwaraeon, neu fwynhau bywyd bywiog tref Aberystwyth - y ddau gobeithio! Mae'r Gymdeithas Hanes yn rhan bwysig o'r adran Hanes, ac mae'n dod â myfyrwyr o bob blwyddyn academiaidd at ei gilydd. Mae'r Gymdeithas yn mynd ar sawl taith drwy gydol y flwyddyn i amgueddfeydd a chestyll, ac mae'n trefnu taith haf fawr dramor hefyd. Maen nhw'n cynnal nosweithiau cymdeithasu â themâu bob wythnos, sy'n llawer o hwyl, gyda digonedd o chwerthin a chymdeithasu. Mae llawer o gymdeithasau eraill i ymuno â nhw hefyd, o wahanol chwaraeon, celfyddydau, gwleidyddiaeth, gemau a llawer mwy. Yn ystod y dydd, gallwch godi'ch traed ac ymlacio yn Undeb y Myfyrwyr, a blasu rhywfaint o'r bwyd yn Nosh-Da - sy'n wych - yn enwedig byrgyr Posh-Nosh, mae'n rhaid i fi ddweud!

Yn gyffredinol, mae profiad myfyriwr Hanes yn Aberystwyth yn un gwych, a bydden i'n eich annog chi i wneud defnydd o'r adran a'i hadnoddau gymaint ag y gallwch chi, a dod yn rhan o ochr gymdeithasol pethau drwy gymdeithasau fel y Gymdeithas Hanes.



Ein cyrsiau

Anrhydedd sengl

Hanes	t.5
Hanes a Hanes Cymru	t.6
Hanes a TESOL	t.8
Hanes Modern a Chyfoes	t.9
Hanes Modern a Gwleidyddiaeth	t.10
Hanes yr Oesoedd Canol a Hanes Modern Cynnar	t.12
Graddau cyfun	t.13

Hanes

BA (Anrh) | V101 | 3 blynedd

Bydd gradd mewn Hanes yn caniatáu ichi roi'r gorffennol yn ei gyd-destun, magu dealltwriaeth ddyfnach o gymdeithas a'r byd, a datblygu sgiliau dadansoddol fel dehongli, dadansoddi a chyfathrebu sydd mor allweddol yn y gweithle.

Yn ystod eich gradd, byddwch yn datblygu sgiliau hanesydd trwy ddysgu am y dulliau a ddefnyddir i archwilio a chysylltu â'r gorffennol. Wrth ichi brofi'r amrywiaeth eang o fodiwlau yn yr adran, byddwch yn ymgyfarwyddo â damcaniaethau hanesyddol fydd yn peri ichi feddwl, y dulliau ymchwilio diweddaraf, a ffynonellau hanesyddol difyr sy'n amrywio o lawysgrifau canoloesol a baledi modern cynnar i gyfryngau torfol modern, straeon hanes llafar, a hanes a diwylliant materol. Bydd y modiwlau hyn yn eich paratoi i gynnal eich ymchwil eich hun a fydd yn bwydo i'ch traethawd hir yn y flwyddyn olaf yn ogystal â'ch paratoi ar gyfer bywyd ar ôl y brifysgol.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Hanes yn Aberystwyth:


- astudio yn yr adran hanes hynaf yng Nghymru, gyda dros gan mlynedd o ysgolheictod ac addysgu o safon fyd-eang
- dewis eang o fodiwlau hanes, a ddysgir gan arbenigwyr yn y maes
- dulliau dysgu arloesol, â'r pwyslais ar ffynonellau gwreiddiol
- mynediad llawn fel myfyrwr i lyfrau, llawysgrifau ac archifau Llyfrgell Genedlaethol Cymru - un o ddim ond pum llyfrgell hawlfraint yn y DU, bum munud o'r Adran - un o gasgliadau archif hanesyddol pwysicaf y DU, a chartref archif genedlaethol Cymru
- gweithgareddau allgyrsiol gan gynnwys teithiau maes a chynadleddau dan arweiniad myfyrwyr
- lleoliadau gwaith ac interniaethau perthnasol.

Cyflogadwyedd

Mae ein graddedigion wedi bod yn llwyddiannus yn dod o hyd i waith mewn amrywiol feysydd gan gynnwys: y sector treftadaeth; addysg; ysgolheictod ac ymchwil academaidd; curadu a rheoli archifau; y gyfraith; cyhoeddi; gwleidyddiaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol; y gwasanaeth sifil; yr heddlu; y lluoedd arfog; y cyfryngau a'r diwydiannau creadigol; busnes a mentergarwch.

Ffeithiau Allweddol

 **Cynnig nodweddiadol:**
Pwyntiau tariff UCAS: 120-96
BR: 30-26.

 **Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.

 **Teithiau/gwaith maes:** Oes.

Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

Y flwyddyn gyntaf:

- Cyflwyno Hanes
- Cydio mewn Hanes: Ffynonellau a'u Haneswyr.

Yr ail flwyddyn:

- Llunio Hanes.

Y flwyddyn olaf:

- Traethawd Hir.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Concwest, Uno a Hunaniaeth yng Nghymru 1250-1800
- Milwyr, Myfyrwyr a Masnachwyr: Teithio a Symudedd yn Ewrop Ganoloesol
- Ewrop a'r Byd, 1000-2000
- Trosedd, Terfysg a Moesoldeb yng Nghymru 1750-1850
- Cymdeithas, Pobl a Gwleidyddiaeth: Cymru, 1800-1999
- Concro'r Byd: Twf a Chwyp Ymerodraethau Prydain a Ffrainc
- Stori yr Unol Daleithiau ar Ffilm a Theledu, 1865-2008
- Cymdeithas Cymru Fodern 1868-1950
- Gwrandao ar Hanes: y Mudiad Hawliau Sifil yn America.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

Ar gael hefyd:

- V100** Trwy gyfrwng y Saesneg.
- V102** Blwyddyn integredig yn astudio dramor.
- V10F** Blwyddyn sylfaen integredig.

Hanes a Hanes Cymru 100% ar gael drwy'r Gymraeg

BA (Anrh) | VV21 | 3 blynedd

Mae Aberystwyth yn ganolfan bwysig i ysgolheictod Cymreig a Cheltaidd cyffrous ac mae gan yr Adran Hanes a Hanes Cymru enw rhyngwladol yn y maes hwn. Mae'r radd hon yn gyfle i astudio elfennau allweddol o hanes Cymru wrth ichi hefyd fagu dealltwriaeth ehangach o hanes.

Bydd y cwrs hwn yn rhoi ichi radd arbenigol mewn hanes Cymru ynghyd â hanes. Cewch gyfle i astudio amrywiaeth o fodiwlau Hanes Cymru, o'r cyfnod canoloesol i'r oes fodern. Cewch hefyd ddewis o'r amrywiaeth eang o fodiwlau eraill sydd ar gael yn yr adran. Fel myfyrwr ar y cwrs gradd hwn cewch hefyd elwa o'r cyfle i astudio mewn canolfan arbenigol ar gyfer hanes Cymru gydag enw rhyngwladol, ac i ddatblygu eich diddordebau mewn hanes gwledydd eraill.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Hanes a Hanes Cymru yn Aberystwyth:

- cael astudio yn yr adran hanes hynaf yng Nghymru sy'n un o'r mwyaf blaenllaw ym Mhrydain, lle dysgwyd Hanes Cymru ers y 1880au
- dewis eang o fodiwlau, sy'n cael eu dysgu gan arbenigwyr yn y maes, â'r pwyslais ar ffynonellau gwreiddiol
- cael defnyddio llyfrgell y Brifysgol, lle mae casgliad o'r radd flaenaf o lenyddiaeth Geltaidd a gweithiau hanesyddol, yn ogystal â Llyfrgell Genedlaethol Cymru, un o ddim ond pum llyfrgell hawlfraint yn y DU ac archif genedlaethol Cymru
- gweithgareddau allgyrsiol fel cynadleddau dan arweiniad myfyrwyr a theithiau maes
- cael eich dysgu gan staff a gydnabyddir yn rhyngwladol ac sy'n arbenigwyr yn eu maes
- cyfleoedd i fynd ar leoliadau gwaith ac interniaethau sy'n ymwneud â hanes.

Cyflogadwyedd

Mae ein graddedigion wedi bod yn llwyddiannus yn dod o hyd i waith mewn amrywiol feysydd gan gynnwys: y sector treftadaeth; addysg; ysgolheictod ac ymchwil academiaidd; curadu a rheoli archifau; y gyfraith; cyhoeddi; gwleidyddiaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol; y gwasanaeth sifil; yr heddlu; y lluoedd arfog; y cyfryngau a'r diwydiannau creadigol; a busnes a mentergarwch.

Ffeithiau Allweddol



Cynnig nodweddiadol:
Pwyntiau tariff UCAS: 120-96
BR: 30-26.



Pwyslais marcio: Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.



Teithiau/gwaith maes: Oes.

Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

Y flwyddyn gyntaf:

- Cyflwyno Hanes
- Cydio mewn Hanes: Ffynonellau a'u Haneswyr.

Yr ail flwyddyn:

- Llunio Hanes.


Y flwyddyn olaf:

- Traethawd Hir.

Mae'r modiwlau dewisol y gallwch eu dilyn i ddatblygu'ch diddordebau arbenigol yn cynnwys:

- Concwest, Uno a Hunaniaeth yng Nghymru 1250-1800
- Milwyr, Myfyrwyr a Masnachwyr: Teithio a Symudedd yn Ewrop Ganoloesol
- Ewrop a'r Byd, 1000-2000
- Trosedd, Terfysg a Moesoldeb yng Nghymru 1750-1850
- Cymdeithas, Pobl a Gwleidyddiaeth: Cymru, 1800-1999
- Concro'r Byd: Twf a Chwymp Ymerodraethau Prydain a Ffrainc
- Stori yr Unol Daleithiau ar Ffilm a Theledu, 1865-2008
- Cymdeithas Cymru Fodern 1868-1950
- Gwranddo ar Hanes: y Mudiad Hawliau Sifil yn America.

Gellir dewis hefyd o blith ystod o fodiwlau cyfrwng Saesneg. I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.



Hanes a TESOL 83% ar gael drwy'r Gymraeg

(Dysgu Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill)

BA (Anrh) | V103 | 3 blynedd

Bydd ein gradd BA Anrhydedd Sengl mewn Hanes a TESOL ym Mhrifysgol Aberystwyth yn rhoi'r cyfle ichi astudio cwricwlwm hanes amrywiol a chynhwysfawr sy'n rhychwantu ystod eang o gyfnodau cronolegol. Ar y cyd â hynny, cewch gyflwyniad trylwyr i'r ddisgyblaeth o Ddysgu Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (TESOL).

Byddwch yn astudio hanes o'r cyfnod canoloesol i'r byd modern diweddar, gan edrych ar amrywiaeth o ffurfiau ar ymchwilio i hanes - o hanes cymdeithasol a gwleidyddol i'r economaidd a'r diwylliannol. Byddwch yn dysgu'r sgiliau sydd eu hangen ar haneswyr, megis asesu ffynonellau gwreiddiol, meistroli gweithiau eilradd a llunio dadansoddiadau o gymdeithasau'r gorffennol ar sail hanes. Ar yr un pryd, byddwch yn meithrin ystod o sgiliau cyfathrebu a fydd yn gweddu i'r elfennau TESOL yn y rhaglen ac yn eich helpu i ddysgu Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill.

Ymhlith y cyfleoedd i fyfyrwyr Hanes a TESOL yn Aberystwyth mae:

- cael profiad o addysgu arloesol sy'n seiliedig ar ymchwil yn yr Adran Hanes a Hanes Cymru, sydd â'r nod o ddatblygu eich sgiliau trosglwyddadwy mewn meysydd fel dadansoddi, dehongli, a chyfathrebu
- cael profiad o'r byd TESOL (a elwir hefyd yn TEFL) a'r cyfleoedd i deithio dramor y mae gyrfa ym maes TESOL yn eu cynnig
- cyfle i astudio dramor yn un o'n prifysgolion partner, i fynd ar leoliad gwaith ac i gynllunio ar gyfer eich gyrfa yn y dyfodol
- manteisio ar ein perthynas gydweithredol unigryw â Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth - un o'r cyfleusterau ar y campws sy'n adnodd gwyb i staff a myfyrwyr y brifysgol - yn ogystal â mynediad llawn i Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

Cyflogadwyedd

Mae cyflogadwyedd yn rhan annatod o'r cwrs gradd hwn. Drwy gydol y cwrs, byddwch yn ymwneud â'r dysgu mewn ffordd ymarferol, ar sail datrys problemau, ac yn canolbwyntio ar sefyllfaoedd y byd go iawn. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle ichi ddatblygu sgiliau cydweithio, arwain, a chreu tîm - sgiliau sy'n hanfodol mewn amrywiaeth o swyddi.

Ffeithiau Allweddol

Cynnig nodweddiadol:
Pwyntiau tariff UCAS: 120-96
BR: 30-26.

Pwyslais marcio: Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.

Teithiau/gwaith maes: Oes.

Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

Y flwyddyn gyntaf:

- Cyflwyno Hanes
- Cydio mewn Hanes
- Language Awareness for TESOL.

Yr ail flwyddyn:

- Llunio Hanes
- Approaches, Methods, and Teaching Techniques in TESOL.

Y flwyddyn olaf:

- Traethawd Estynedig
- Materials Development, and the Application of Technologies
- TESOL Materials Development & Technologies.

Yn ogystal â hyn, byddwch yn astudio un o nifer o Bynciau Arbennig yn eich blwyddyn olaf, a all gynnwys The Norwegian Civil Wars, The English Reformation, The Irish in Britain, c.1815-70, a The Third Reich.

Drwy gydol y cwrs, byddwch yn dewis o blith casgliad o fodiwlau a all gynnwys:

- Medieval and Early Modern Britain and Europe
- Ewrop a'r Byd, 1000-2000
- Concwest, Uno a Hunaniaeth
- Stori yr Unol Daleithiau
- Cymdeithas Cymru Fodern
- Medieval and Early Modern Britain and Europe
- Cymdeithas, Pobl a Gwleidyddiaeth
- European Society and the Medieval Mind 1200-1500
- From the Second Empire to the Third Reich: Weimar Germany 1914-1933
- Writing about War in High Medieval Scandinavia
- Concra'r Byd: Twf a Chwypm Ymerodraethau Prydain a Ffrainc
- Media and Society.

Ar gael hefyd:
V104 Blwyddyn integredig yn astudio dramor.
V10F Blwyddyn sylfaen integredig.

Hanes Modern a Chyfoes 67% ar gael drwy'r Gymraeg

BA (Anrh) | V191 | 3 blynedd

Mae ein gradd mewn Hanes Modern a Chyfoes yn rhychwantu'r cyfnod cyn y Chwyldro Ffrengig hyd heddiw. Mae'n archwilio oes pan oedd cyfranogiad torfol yn amlwg, boed mewn gwleidyddiaeth, rhyfel neu ddiwylliant. Mae'n taflu goleuni ar anghysondebau modernedd, a nodweddir gan arbrofion iwtopaidd gyda chanlyniadau hunllefus yn aml, gan broclamasu hawliau dynol, hil-laddiad a 'glanhau ethnig', a gan addewidion ynghylch rhesymeg, gwyddoniaeth a thechnoleg.

Mae gwaith ein haneswyr modern yn cwmpasu'r byd cyfan ac fe gewch elwa o'u harbenigedd eang ar y cynllun gradd hwn. Byddwch yn dysgu am effeithiau'r ddau ryfel byd: imperialaeth a gwrth-imperialaeth, taith Asia drwy'r cyfnod modern, a'r newidiadau mawr i fywyd a chymdeithas sydd wedi digwydd yn y gorffennol agos.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Hanes Modern a Chyfoes yn Aberystwyth:

- astudio yn yr adran hanes hynaf yng Nghymru, gyda dros gan mlynedd o ysgolheictod ac addysgu o safon fyd-eang
- dewis eang o fodiwlau, sy'n cael eu dysgu gan arbenigwyr yn y maes, â'r pwyslais ar ffynonellau gwreiddiol modern a chyfoes a'u dehongli
- gweithgareddau allgyrsiol gan gynnwys teithiau maes a chynhadledd myfyrwyr hanes modern Aberystwyth
- lleoliadau gwaith ac interniaethau sy'n ymwneud â hanes.

Cyflogadwyedd

Mae ein graddedigion wedi bod yn llwyddiannus yn dod o hyd i waith mewn amrywiol feysydd gan gynnwys: y sector treftadaeth; addysg; ysgolheictod ac ymchwil academiaidd; curadu a rheoli archifau; y gyfraith; cyhoeddi; gwleidyddiaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol; y wasanaeth sifil; yr heddlu; y lluoedd arfog; y cyfryngau a'r diwydiannau creadigol; a busnes a mentergarwch.

Ffeithiau Allweddol

Cynnig nodweddiadol:
Pwyntiau tariff UCAS: 120-96
BR: 30-26.

Pwyslais marcio: Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.

Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

Y flwyddyn gyntaf:

- Cyflwyno Hanes
- Cydio mewn Hanes: Ffynonellau a'u Haneswyr.

Yr ail flwyddyn:

- Llunio Hanes.

Y flwyddyn olaf:

- Traethawd Hir.

Mae'r modiwlau dewisol y gallwch eu dilyn i ddatblygu'ch diddordebau arbenigol yn cynnwys:

- The Modern World, 1789 to the Present
- Culture, Society and the Victorians
- Exploring Nineteenth-Century Exhibitions
- From Poor Law to Welfare State: Poverty and Welfare in Modern Britain, 1815-1948
- The Rise of Modern Medicine
- The Irish in Britain
- Media and Society in Twentieth Century Britain
- Britain at War 1939-45
- The Myth of the Blitz
- The Weimar Republic
- The Third Reich
- Germany since 1945
- Modern Japan: From Samurai to Salary Men
- Between Revolution and Reform: China since 1800.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

Teithiau/gwaith maes: Oes.

Hanes Modern a Gwleidyddiaeth 82% ar gael drwy'r Gymraeg

BA (Anrh) | V135 | 3 blynedd

Mae ein gradd mewn Gwleidyddiaeth a Hanes Modern yn canolbwyntio ar astudio syniadau a sefydliadau gwleidyddol diweddar mewn cyd-destun hanesyddol, gan ganiatáu ichi ddeall sut mae syniadau a sefydliadau o'r fath wedi datblygu dros amser. Gradd anrhydedd sengl yw hon lle byddwch yn arbenigo mewn hanes a gwleidyddiaeth.

Yn ystod eich cwrs gradd byddwch yn dysgu am gysyniadau hanes a damcaniaeth wleidyddol trwy astudio ysgolheictod hanesyddol a gwleidyddol newydd a chyffrous. Byddwch yn datblygu sgiliau'r hanesydd wrth ganolbwyntio ar ffynonellau gwreiddiol ac ysgolheictod hanesyddol, ac ar yr un pryd yn elwa o astudio gwyddoniaeth wleidyddol a rhyngwladol. Yn eich blwyddyn olaf byddwch yn ysgrifennu traethawd hir ar bwnc gwleidyddol neu hanesyddol gan ddefnyddio'r sgiliau ymchwil allweddol y byddwch wedi'u datblygu yn ystod eich cwrs.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Hanes Modern a Gwleidyddiaeth yn Aberystwyth:

- astudio yn yr adran hanes hynaf yng Nghymru a'r adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol hynaf yn y byd, a'r ddwy ohonynt â thros gan mlynedd o ysgolheictod ac addysgu o safon fyd-eang
- dewis eang o fodiwlau, sy'n cael eu dysgu gan arbenigwyr yn y maes
- casgliad digymar llyfrgell y Brifysgol o adnoddau hanes modern ar-lein, a mynediad llawn fel myfyrwyr i gasgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- gweithgareddau allgyrsiol gan gynnwys teithiau maes, cynhadledd myfyrwyr hanes modern Aberystwyth, a'r gêm argyfwng Gwleidyddiaeth Ryngwladol
- lleoliadau gwaith ac interniaethau sy'n ymwneud â hanes a gwleidyddiaeth.

Cyflogadwyedd

Mae ein graddedigion wedi bod yn llwyddiannus yn dod o hyd i waith mewn amrywiol feysydd gan gynnwys: y sector treftadaeth; addysg; ysgolheictod ac ymchwil academiaidd; curadu a rheoli archifau; y gyfraith; cyhoeddi; gwleidyddiaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol; y gwasanaeth sifil; heddlu; y lluoedd arfog; y cyfryngau a'r diwydiannau creadigol; a busnes a mentegerwch.

Ffeithiau Allweddol



Cynnig nodweddiadol:
Pwyntiau tariff UCAS: 120-96
BR: 30-26.



Pwyslais marcio: Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.



Teithiau/gwaith maes: Oes.

Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

Y flwyddyn gyntaf:

- Cyflwyno Hanes
- Cydio mewn Hanes: Ffynonellau a'u Haneswyr
- Cyflwyniad i Wleidyddiaeth Ryngwladol 1: Cysyniadau Canolog a Sgiliau Craidd
- Gwleidyddiaeth yn yr 21ain Ganrif.

Yr ail flwyddyn:

- Llundain Hanes
- Pobl a Phŵer: Deall Gwleidyddiaeth Gymharol Heddiw.

Y flwyddyn olaf:

- Traethawd Hir.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- The Modern World, 1789 to the Present
- From Poor Law to Welfare State: Poverty and Welfare in Modern Britain, 1815-1948
- Media and Society in Twentieth Century Britain
- Britain at War 1939-45
- The Vietnam War
- The Third Reich
- Germany since 1945
- Image Wars in Southeast Asia: Studying Twentieth Century Propaganda
- Knowing about Violent Conflict in International Politics
- Russian Intelligence from Lenin to Putin
- Nationalism in Theory and Practice
- Political Theory.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.



Hanes yr Oesoedd Canol a'r Cyfnod Modern Cynnar

85% ar gael drwy'r Gymraeg

BA (Anrh) | V190 | 3 blynedd

Bydd ein gradd mewn Hanes yr Oesoedd Canol a'r Cyfnod Modern Cynnar yn rhychwantu tua 800 o flynyddoedd ac yn datgelu hanes y cyfnod cyn yr oes fodern. Byddwch yn astudio pynciau cyffrous megis trais a brenhiniaeth, teithio a darganfyddiad, yr economi a masnach, a'r corff a'r meddwl yn y cyfnod 1000-1800. Dewch ar daith i'r gorffennol i ddysgu am fywyd ym Mhrydain yr oesoedd canol, cestyll a llysoedd Ewrop, a'r teithiau a groesodd foroedd dieithr i'r Byd Newydd, fel y'i gelwid, ynghyd â llawer o ddigwyddiadau a themâu cyffrous eraill.

Ar y cwrs hwn byddwch yn gweithio gyda staff sy'n arbenigwyr yn eu meysydd ac yn cael eu cydnabod yn rhyngwladol. Cewch gyfle i weithio mewn grwpiau bychain gydag amrywiaeth o ddogfennau gwreiddiol, ac fe gewch fanteisio ar ddysgu mewn amgylchedd ymchwil o'r radd flaenaf.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Hanes yr Oesoedd Canol a'r Cyfnod Modern Cynnar yn Aberystwyth:

- astudio yn yr adran hanes hynaf yng Nghymru, gyda dros gan mlynedd o ysgolheictod ac addysgu o safon fyd-eang ym maes hanes yr oesoedd canol a hanes modern cynnar
- dewis eang o fodiwlau, sy'n cael eu dysgu gan arbenigwyr yn y maes, â'r pwyslais ar ffynonellau gwreiddiol a'u dehongli
- mynediad llawn fel myfyrwr i gasgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru o lawysgrifau canoloesol a modern cynnar - un o gasgliadau archif hanesyddol pwysicaf y DU
- gweithgareddau allgyrsiol gan gynnwys teithiau maes a chynhadledd myfyrwyr hanes y canol oesoedd Aberystwyth
- lleoliadau gwaith ac interniaethau sy'n ymwneud â hanes.

Cyflogadwyedd

Mae ein graddedigion wedi bod yn llwyddiannus yn dod o hyd i waith mewn amrywiol feysydd gan gynnwys: y sector treftadaeth; addysg; ysgolheictod ac ymchwil academiaidd; curadu a rheoli archifau; y gyfraith; cyhoeddi; gwleidyddiaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol; y cyfryngau a'r diwydiannau creadigol; a busnes a mentergarwch.

Ffeithiau Allweddol



Cynnig nodweddiadol:
Pwyntiau tariff UCAS: 120-96
BR: 30-26.



Pwyslais marcio: Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.



Teithiau/gwaith maes: Oes.

Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

Y flwyddyn gyntaf:

- Cyflwyno Hanes
- Cydio mewn Hanes: Ffynonellau a'u Haneswyr.

Yr ail flwyddyn:

- Llunio Hanes.

Y flwyddyn olaf:

- Traethawd Hir.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Knighthood and Chivalry in High Medieval England, 1066-1300
- The European Reformation
- Wales under the Tudors
- The Tudors: A European Dynasty?
- The Atlantic World
- Medieval and Early Modern Britain and Europe, 1000-1800
- The Norwegian Civil Wars
- Famine in Medieval England
- European Society and the Medieval Mind 1200-1500.

Gellir dewis hefyd o blith ystod o fodiwlau cyfrwng Saesneg. I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

Graddau Cyfun

Pwnc	Ar gael gyda...	Gradd Gyfun
Hanes	Addysg	VX13
	Almaeneg	RV21
	Cyfrngau	P3V1
	Cymraeg	QV51
	Cysylltiadau Rhyngwladol	2DLV
	Drama a Theatr	WV41
	Hanes Cymru	VV21
	Llenyddiaeth Saesneg	QV31
	Mathemateg	GV11
Ysgrifennu Creadigol	WV81	

Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'n hadran ni yn un o brif ddarparwyr dysgu cyfrwng Cymraeg y Brifysgol.

Mae gennym chwe aelod o staff sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn gallu cynnig ystod ddi-ddorol o fodiwlau drwy'r Gymraeg sy'n ymwneud â Chymru, Prydain, Ewrop ac America o'r cyfnod canoloesol hyd at heddiw.

Gellir bod yn hyblyg iawn wrth ddewis iaith y dysgu. Cewch ddewis gradd cyfrwng Cymraeg yn benodol neu ddilyn ambell fodiwl yn unig drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd pob myfyriwr cyfrwng Cymraeg yn cael tiwtor personol sy'n medru'r Gymraeg i'w cynghori ynghylch hyn a materion eraill.

Mae Chwilotydd cyrsiau y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnig rhagor o wybodaeth am y cyrsiau rydym yn eu cynnig yn rhannol neu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg.

www.colegcymraeg.ac.uk/cy/astudio/trwrygymraeg



Cyflogadwyedd

Cyfleoedd profiad gwaith

Bydd astudio Hanes ym Mhrifysgol Aberystwyth yn rhoi ichi sylfaen gadarn ar gyfer eich gyrfa yn y dyfodol. Mae Hanes fel pwnc yn cael ei werthfawrogi gan gyflogwyr ar draws llawer o sectorau, ac mae'n graddedigion ni'n llwyddo i gael gwaith mewn amrywiaeth fawr o swyddi yn y farchnad i raddedigion.

Fel Adran, rydym yn rhoi pwyslais mawr ar brofiad gwaith yn ystod eich cwrs. Rydym yn cefnogi unrhyw fyfyrwr sydd yn dymuno treulio blwyddyn integredig mewn diwydiant yn rhan o'u gradd Hanes. Mae hyn yn gyfle ichi gael profiad gwaith sy'n para blwyddyn, â thâl neu heb dâl, rhwng yr ail a'r drydedd flwyddyn.

Sgiliau trosglwyddadwy

Mae'r sgiliau y byddwch yn eu meithrin ar eich gradd Hanes yn rhai hyblyg, eang a throsglwyddadwy a byddant yn eich paratoi ar gyfer ystod eang o swyddi.

Mae'r sgiliau hyn yn cynnwys y gallu i:

- ddadansoddi llawer iawn o ddata
- cyflwyno gwybodaeth, syniadau a dadleuon yn ddealladwy ac yn effeithlon, ar lafar ac yn ysgrifenedig
- cynnal ymchwil yn annibynnol
- llunio dadl resymegol
- dehongli amrywiaeth o ffynonellau
- arwain trafodaethau, cyflwyniadau a dadleuon yn rheoli amser a llwyth gwaith
- meddwl yn feirniadol, yn greadigol ac yn annibynnol
- gweithio'n effeithiol mewn tîm.

Dyma rai o'r meysydd lle mae graddedigion diweddar yn gweithio:

- addysg
- archifo
- cyhoeddi
- entrepreneuriaeth
- llywodraeth
- y cyfryngau
- y gwasanaeth sifil
- y gyfraith
- y lluoedd arfog.



Ymchwil yr Adran

Mae ein hymchwil yn arloesol ac o safon fyd-eang.

Rydym yn arwain ac yn cyfrannu at brosiectau a chyhoeddiadau ymchwil uchel eu bri, a llawer ohonynt yn bellgyrhaeddol y tu hwnt i Brifysgol Aberystwyth a'r cyffuniau - drwy gyfrwng y teledu, radio a thrwy gyhoeddusrwydd gan amgueddfeydd, ymhlith eraill.

Mae pob aelod o'r staff dysgu yn ymchwilwyr gweithgar ar flaen y gad ym maes hanes, gan weithio ar lefel ryngwladol. Mae'r rhain yn bobl sy'n cael dylanwad ac sy'n gwneud gwahaniaeth, wrth siapio syniadau ac agweddau ar amrywiaeth eang o bynciau. Mae ymchwil ein staff yn bwydo i mewn i'r hyn y maent yn ei ddysgu i'r genhedlaeth nesaf o haneswyr.

Mae ein gwaith ymchwil yn canolbwyntio'n bennaf ar bedwar cyfnod cronolegol - Oesoedd Canol, Modern Cynnar, Prydain ac Ewrop Fodern a Chymru Fodern - er ein bod yn gwneud ymchwil ar Asia hefyd. Rydym yn gweithio ar draws amrywiaeth eang o feysydd, gan gynnwys rhai o'r ffyrdd y mae haneswyr heddiw yn ymchwilio ac yn ysgrifennu am y gorffennol. Ceir cryfderau amlwg, yn ei holl ehangder, ym maes hanes gwleidyddol, diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd, a chrefyddol.

Mae nifer o themâu yn sefyll allan: sut y mae pobl wedi deall ac ysgrifennu am hanes mewn cymdeithasau yn y gorffennol; hanes meddyginiaeth, gwyddoniaeth a thechnoleg; a hanes y cyfryngau.

Mae ein hymchwil yn arloesol ac o safon fyd-eang. Mae esiamplau'n cynnwys ein hymchwil ar seliau'r Oesoedd Canol, natur ysgrifennu hanesyddol dros amser, sut mae gwyddoniaeth fodern wedi datblygu, a sut mae profiadau hanesyddol argyfyngau megis newyn wedi newid.



Cyfleoedd byd-eang

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig amrywiaeth cyffrous o opsiynau ichi fynd dramor tra byddwch yn astudio am eich gradd.

Bydd ein tîm Cyfleodd Byd-eang yn eich helpu chi i nodi'r opsiwn gorau.

Manteision astudio a gweithio dramor

- Rhoi hwb i'ch hyder
- Gwella'ch sgiliau cyfathrebu, rhyngddiwylliannol a rhyngbersonol
- Meithrin eich hyblygrwydd a'ch gwynwch
- Eich helpu i fod yn agored i gyfleoedd rhyngwladol
- Buddiol i'ch gyrfa.



Blwyddyn neu semester dramor

Rydym yn cynnig ystod o raddau sy'n cynnwys blwyddyn integredig yn eich trydedd flwyddyn lle cewch astudio dramor mewn prifysgol sy'n un o'n partneriaid.

Gall myfyrwyr ar y rhan fwyaf o gyrsiau gradd eraill fynd dramor am semester yn ystod eu hail flwyddyn astudio.

Gweithio dramor yn ystod eich blwyddyn mewn diwydiant

Os ydych chi'n astudio gradd sy'n cynnwys blwyddyn mewn diwydiant, gallwch ddewis treulio'r flwyddyn gyfan neu ran o'r flwyddyn yn gweithio dramor, os yw eich adran yn cymeradwyo hyn.

Rhaglenni byrion

Gall treulio cyfnod dramor, hyd yn oed am gyfnod byr, fod yn brofiad gwirioneddol werthfawr. Rydym yn cynnig cyfnodau byrion lle gallwch astudio, gweithio neu wirfoddoli dramor, o dri diwrnod i wyth wythnos.

Cefnogaeth

Bydd y tîm Cyfleodd Byd-eang yn eich helpu i baratoi ar gyfer eich profiad dramor. Mae'r cymorth yn cynnwys:

- Digwyddiadau cyn ymadael i sicrhau eich bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl ar ôl ichi gyrraedd. Byddwn hefyd yn sicrhau bod gennych yr holl ddogfennau teithio angenrheidiol. Byddwch hefyd yn dysgu sut i wneud y gorau o'ch taith a sut i gael cymorth os bydd ei angen arnoch chi.
- Bydd gweithdai yn digwydd ar ôl ichi ddechrelyd sy'n cael eu cynnal ar y cyd â'r Gwasanaeth Gyrfaoedd. Bydd y rhain yn eich helpu i fyfyrto ar eich profiadau a'u defnyddio yn eich bywyd bob dydd ar ôl ichi ddod adref. Byddant yn eich helpu i ystyried sut i sôn am eich profiad dramor mewn ceisiadau am swyddi ac mewn sgysiau â chyflogwyr y dyfodol.

Cyllid

Mae arian ar gael drwy gynlluniau llywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru sy'n hyrwyddo astudio a gweithio dramor i gefnogi myfyrwyr cymwys â chostau byw a theithio.

Mae Cronfa Cyfleodd Ewropeaidd Aberystwyth, a sefydlwyd drwy rodd hynod hael gan un o gyn-fyfyrwr y Brifysgol, yn unigryw i Aberystwyth ac mae'n darparu cymorth ariannol i helpu â gweithgareddau byrion yn yr Undeb Ewropeaidd.

Mae cyllid ychwanegol ar gael i fyfyrwyr o grwpiau difreintiedig.

Hong Kong



Budapest



Buenos Aires



Washington, DC



Norwy



Sut i wneud cais

Pan fyddwch wedi penderfynu pa gwrs yr hoffech ei astudio a ble, gallwch ddechrau'r broses o ymgeisio. Dyma gipolwg byr o'r broses a'n gweithdrefnau yma yn Aberystwyth.

1 Gwneud cais trwy UCAS.com

Dyddiad cau 31 Ionawr 2024. Côd sefydliad Prifysgol Aberystwyth: A40

GAIR I GALL: Cewch rif UCAS 10 digid. Cadwch hwn wrth law oherwydd gofynnir am y rhif nifer o weithiau.

2 Bydd y brifysgol yn ystyried eich cynnig

GAIR I GALL: Defnyddiwch Hwb UCAS i gadw llygad ar eich cais. Yn Aberystwyth rydym yn ceisio gwneud penderfyniad o fewn 4 wythnos.

3 Bydd y cynnig i'w weld ar Hwb UCAS

4 Penderfynwch ble i fynd

Pan fyddwch wedi cael eich holl gynigion, bydd angen i chi benderfynu i ba brifysgol yr hoffech fynd, o fewn amser penodol. Dyma pryd y bydd angen i chi nodi pa brifysgolion fydd eich dewisiadau cadarn ac wrth gefn.

5 Llety


Pan fyddwch wedi gwneud eich dewis cadarn/wrth gefn gallwch wneud cais am lety (Ebrill ymlaen).

6 Diwrnod y canlyniadau

Bydd Hwb UCAS yn cadarnhau eich cynnig o le. Os nad ydych yn sicr beth yw'r cynnig, cysylltwch â'r brifysgol yn uniongyrchol. Os nad ydych yn cael y graddau yr oeddech wedi gobeithio amdanynt, efallai yr hoffech ystyried y broses Glirio.

7 Dechreuwch bacio!





Adran Hanes a Hanes Cymru,
 Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol,
 Prifysgol Aberystwyth,
 Aberystwyth,
 Ceredigion, SY23 3FE

☎ +44 (0)1970 62 1917

@ history-enquiries@aber.ac.uk

✂ @historyaber

Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan
 Marchnata a Denu Myfyrwyr,
 Prifysgol Aberystwyth 2023.



Argraffwyd ar bapur
 wedi'i ailgylchu 100%